**EITEM 7**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 03 Tachwedd 2014 |
| **TEITL** | Strategaeth Cynhwysiad Ysgolion Uwchradd |
| **PWRPAS** | Ymateb i'r ymgynghori |
| **ARGYMHELLIAD** | Sefydlu Fformiwla Dyrannu 2015/16 |
| **AWDUR** | Owen Owens, Pennaeth Addysg Dros Dro |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Gareth Thomas |

## 1 Cefndir

1.1 Nod y Strategaeth Cynhwysiad yw atal gwaharddiadau yn ein hysgolion. Sefydlwyd protocol gweithredu a chytundeb ar draws y sir rhwng yr Awdurdod a'r ysgolion. Etifeddodd ysgolion uwchradd staff o Ysgol Coed Menai a gaeuwyd yn Awst 2012.

1.2 Cyflwynir gwybodaeth gefndirol ar y broses ymgynghori i sefydlu fformiwla dyrannu cynhwysiad ar gyfer 2015/16 –

Llythyr ymgynghori 10/06/2014 (atodiad 1) gyda'r fformiwla yn cael ei gynnig ar sail –

- 25% Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- 25% Hawl Cinio am Ddim
- 25% nifer disgyblion CA3
- 25% nifer disgyblion CA4
- Gwarantu lleiafswm £20,000 craidd i pob ysgol

*mwyafrif o'r Grŵp yn cytuno gyda'r sail yma, ond ddim yn benderfyniad unfrydol.*

## 2 Ymateb i'r ymgynghori (dyddiad cau 03/10/2014)

2.1 Crynodeb o'r ymatebion

- 10 ysgol yn cefnogi'r cynnig
- 2 ysgol yn gwrthwynebu i'r cynnig ac wedi cynnig sail gwahanol
- 1 ysgol wedi ymateb yn hwyr – heb sylw
- 1 ysgol heb ymateb

2.2 Sylwadau ysgolion yn derbyn y cynnig (10) –

1. Pryder ynglyn â gweithredu o fewn yr amserlen ofynnol yn sgil achosion cyflogaeth megis gormodedd ayb

2. Angen cadarnhad o'r broses droslgwyddo cyflogaeth o'r Awdurdod i'r ysgolion
3. Cynnig yn un teg wrth ystyried amgylchedd ariannol y dyfodol
4. Model yn cynnwys cyfaddawd priodol rhwng y gwahanol ffactorau
5. Angen cadarnhad o gwir gost cyflogi staff o fewn y cynllun cynhwysiad
6. Nid yw'n bosib cael fformiwla sy'n plesio pob ysgol unigol
7. Dull newydd yn deg ac yn sicr yn decach na'r dull presennol

2.3 Sylwadau ysgolion yn gwrthod y cynnig (2) -
Mae'r ddwy ysgol sy'n gwrthwynebu y model, wedi cynnig sail dyrannu gwahanol (yr un cynnig) –

- Lleiafswm craidd i pob ysgol o £47,495 (sef cost cyflogi athro/athrawes ar uchafswm graddfa UPS3)
- Gweddill yr arian yn cael ei ddyrannu i ysgol gyda mwy na 500 o ddisgyblion ar sail y cynnig, sef –
  - 25% Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
  - 25% Hawl Cinio am Ddim
  - 25% nifer disgyblion CA3
  - 25% nifer disgyblion CA4

1. Yn ystod cyfnod peilot y cynllun, derbyniwyd gwarant y byddai pob ysgol yn derbyn o leiaf cyfwerth cost cyflogi athro/athrawes. Pryder bod yr addewid yma bellach yn cael ei dorri.
2. Nid yw'r model sydd yn cael ei gynnig yn gwarantu cyllid digonol i barhau i gyflogi athro/athrawes. Wrth drosglwyddo y staff cynhwysiad i ysgolion ynghyd â thoriadau arfaethedig, bydd yn arwain at ddiswyddo gorfodol o fewn yr ysgolion.
3. Pryder, erbyn bydd penderfyniad ar y sail dyrannu, y bydd gweithredu y broses gormodedd i ddiswyddo o fewn yr amserlen yn anodd.
4. Ar gychwyn y broses roedd yr Awdurdod yn argymell mai athro/athrawes ddylai arwain y gwaith cynhwysiad, bellach mae newid yn y meddylfryd hwn.
5. Os bydd y Fforwm Cyllid Ysgolion yn argymell y model sydd yn cael ei gynnig gan y Grŵp, dylid ystyried gohirio datganoli cyllid strategaeth cynhwysiad tan Ebrill 2016 ac felly trosglwyddo'r staff o'r Awdurdod i'r ysgolion.

2.4 Yn atodiad 2 mae'r ddau gynnig yn cael ei gymharu gyda'r trefniadau gwreiddiol wnaethpwyd ym Medi 2012.

## 3 Argymhelliad -

3.1 Gofynnir i'r Fforwm argymell sail dyrannu cyllid strategaeth cynhwysiad i'r ysgolion uwchradd, gan gynnwys trosglwyddo cyflogaeth y staff o'r Awdurdod i'r ysgolion, gan nodi dyddiad gweithredu.